**Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 15/02/23**

**Yn bresennol:**

Vikki Howells AS (Cadeirydd)
Dan Roberts - Tîm Digwyddiadau Cwmpas (Ysgrifennydd)
Yr Athro Andrew Henley
Sian Gale
Derek Walker
Luke Fletcher AS
Michael Allen
Alex Bird
Mollie Roach
Gemma Casey
Ryland Doyle
Edna Leys
Mark Hooper
Casey Edwards
Elizabeth Hudson
Catrin Huws
Robin Lewis
Ioan Bellin
Ged Bermingham
Mari Tudur
Yolanda Barnes
Sian Williams
Bev Fold

Dechreuodd Cadeirydd y grŵp, **Vikki Howells AS**, y cyfarfod drwy ddiolch i Brif Weithredwr Cwmpas sy'n ymadael o’r swydd, **Derek Walker**, am ei gyfraniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol dros y blynyddoedd diwethaf, a dymunodd pob lwc iddo yn ei rôl newydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Yna, fe gyflwynodd Vikki bwnc y cyfarfod, sef yr heriau oedd yn wynebu pobl hunangyflogedig yng Nghymru, a’r potensial i fodelau cydweithredol gynnig ateb. Nododd Vikki bod lefelau uwch o entrepreneuriaeth wedi bod yn uchelgais polisi gan Lywodraeth Cymru ers tro, ond canfu adroddiad diweddar gan Sefydliad Bevan fod pobl hunangyflogedig yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol, a bod llai o incwm a mynediad at yswiriant ganddynt na phobl gyflogedig yng Nghymru.

Y siaradwr cyntaf yn y cyfarfod oedd **yr Athro Andrew Henley**, Athro Entrepreneuriaeth ac Economeg yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Cyflwynodd yr Athro Henley y sector hunangyflogedig yng Nghymru fel un â lefelau uchel o heterogeniaeth – yn amrywio o weithwyr proffesiynol yn y sector gwybodaeth â chymwysterau uchel i fasnachwyr "seiliedig ar grefftau" i "gontractwyr dibynnol". Nododd fod un o bob pump o bobl hunangyflogedig yng Nghymru yn creu swyddi i eraill.

Nododd yr Athro Henley y bu cynnydd sylweddol mewn hunangyflogaeth yng Nghymru ers 2 ddegawd a gyrhaeddodd ei anterth yn 2015, cyn gostwng yn ystod pandemig Covid-19. Nododd fod 3 amrywiad daearyddol mewn hunangyflogaeth yng Nghymru; ardaloedd gwledig sydd â lefelau uchel o hunangyflogaeth ond enillion isel, ardaloedd trefol llewyrchus gyda hunangyflogaeth sy'n gysylltiedig â sgiliau lefel graddedigion ac enillion uwch, ac ardaloedd ar ei hôl hi gyda galw economaidd isel a lefelau sgiliau is ymhlith pobl hunangyflogedig. Awgrymodd yr Athro Henley mai ei ddadansoddiad o'r sefyllfa oedd, yn hytrach nag esbonio hunangyflogaeth gan "entrepreneuriaeth angenrheidiol" a yrrwyd gan lai o gyfleoedd cyflogaeth, bod hunangyflogaeth yn fwy tebygol o gael ei annog gan ffyniant economaidd uwch mewn ardal sy'n achosi mwy o alw.

Nododd yr Athro Henley fod dynion ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig na menywod, ond bod y bwlch hwn yn cau'n raddol. Nododd fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig, a bod pobl hunangyflogedig yn tueddu i ymddeol yn hŷn na'r rhai sy'n cael eu cyflogi. Canfuwyd fod hunangyflogaeth yn uwch mewn rhai sectorau gan gynnwys amaethyddiaeth, adeiladu a rhai sectorau gwasanaeth. Nododd fod yr economi gig yn elfen gynyddol o hunangyflogaeth ac yn debygol o gyfrannu at yr incwm is a geir yn y data. Gwelodd gweithwyr gig hunangyflogedig, yn wahanol i bob grŵp arall, eu horiau'n cynyddu ac enillion bob awr yn gostwng rhwng 2009-2012 a 2016-2019.

Nododd yr Athro Henley ei bod yn anodd iawn cymharu enillion rhwng y cyflogedig a'r hunangyflogedig. Canfu adroddiad Sefydliad Bevan fod bwlch enillion o 50% rhwng y cyflogedig a'r hunangyflogedig. Wrth gael eu paru â sampl gyfatebol o'r rhai cyflogedig, mae sgoriau amddifadedd materol cartref yr hunangyflogedig ychydig yn uwch (hyd at tua 16% yn waeth). Mae'r un data'n awgrymu bod yr hunangyflogedig yn waeth eu byd ar bob pwynt ar hyd dosbarthiad enillion y cartref tan y dengradd uchaf.

Nododd yr Athro Henley fod sawl ymateb polisi posib i'r data, gan gynnwys gwell cefnogaeth busnes i'r hunangyflogedig, cefnogi pobl gyda chostau fel tai a gofal plant, ac amddiffyniadau fel mynediad at gynlluniau budd-daliadau, absenoldeb salwch â thâl a sylw i'r cyflog byw cenedlaethol.

Y siaradwr nesaf oedd **Siân Gale** o BECTU, yr undeb llafur sy'n cynrychioli gweithwyr y tu ôl i'r llenni ym maes Darlledu, Ffilm, Digidol, Theatr & Digwyddiadau Byw. Y diwydiannau creadigol sydd ag un o'r lefelau uchaf o hunangyflogaeth o unrhyw sector yng Nghymru. Amlinellodd Siân rai o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr yn y sector hwn:

- Diffyg swyddi parhaol / diogel (Llawrydd & Achlysurol)
- Diffyg cynlluniau hyfforddi cyson, ffurfiol, hirdymor â thâl
- Recriwtio gair yn y glust (yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli & llawer o ardaloedd daearyddol)
- Diffyg budd-daliadau i weithwyr – pensiynau, tâl salwch, yswiriant
- Diffyg gwybodaeth / rhwydweithiau i newydd-ddyfodiaid
- Diffyg cyfleoedd dilyniant – dim cefnogaeth gan gyflogwr
- Oriau hir & anghymdeithasol (unigrwydd pan nad ydynt yn gweithio)
- Diwylliant o ofn & Bwlio, aflonyddu & anffafriaeth

Nododd Sian rai o fanteision aelodaeth undebau llafur i'r gweithwyr hyn, yn ogystal â manteision posibl modelau cydweithredol yn seiliedig ar undod, grymuso a chynhwysiant:

- Perchnogaeth gyffredin o broblemau a dod ynghyd i ddatrys problemau yn hytrach na bod lle i ecsploetio
- Mireinio'r grefft gyda'n gilydd ar draws mentrau cydweithredol i rannu llwyth a systemau ‘swyddfa gefn’
- Hyblygrwydd i weithio ar y cyd ac yn annibynnol - llawrydd / perchennog gweithiwr
- Dad-ddysgu diwylliannol beirniadol o gyngor gyrfa / cyflawniad unigol a strwythur targed addysg
- Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i feddwl mwy am fargeinio ar y cyd ac economïau cyfnewid & graddfa

I gloi, rhoddodd **Daniel Roberts** o Cwmpas drosolwg o'r modelau mentrau cydweithredol a chymdeithasol a sut y gallent fod yn berthnasol i'r cyd-destun hwn. Trafododd fanteision posibl y modelau hyn i weithwyr drwy ganiatáu i bobl rannu adnoddau a chreu opsiynau yswiriant, i'r economi drwy gynyddu cynhyrchiant a gwneud busnesau'n fwy cynaliadwy, ac i gymunedau drwy wreiddio perchnogaeth a datblygu asedau cymunedol.

Yna, trafododd Dan enghreifftiau rhyngwladol o'r modelau cydweithredol hyn, megis cronfeydd bara o'r Iseldiroedd, deddfwriaeth Ffrengig ddiweddar a'r Consorzio Cooperative Costruzione yn yr Eidal sydd wedi parhau i ehangu i fod yn un o'r cwmnïau adeiladu mwyaf yn yr Eidal gyda 230 o aelodau cydweithredol sy’n weithwyr, a 20,000 o berchnogion sy’n weithwyr. Trafododd Dan enghraifft Gymreig, cwmni The Timber Co-operative a ddechreuodd fel crefftwyr annibynnol a gweithwyr pren, a ddaeth at eu gilydd yn organig. Fe wnaethon nhw ymuno i ddechrau i weithio ar brosiectau penodol, cyn ymgorffori yn y pen draw. Heddiw maen nhw'n falch o fod yn gwmni cydweithredol gweithwyr, sy'n golygu bod eu busnes yn eiddo i'w gilydd ac yn cael ei weithredu gan ei aelodau. Mae ganddynt strwythur cyflog heb hierarchaeth, cyfartal ac maent yn arddel penderfyniadau consensws. Mae ganddynt ddatganiad cenhadaeth menter gymdeithasol gyda chynaliadwyedd, partneriaeth ac impact wrth ei galon.

Yna, gwahoddodd Vikki gwestiynau gan y gynulleidfa, a holodd hithau am hunangyflogaeth yng nghymoedd de Cymru. Nododd fod Tasglu'r Cymoedd wedi ceisio annog mwy o bobl yn y cymoedd i fod yn hunangyflogedig, ond nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth o effaith eto, felly gofynnodd beth allai'r llywodraeth ei wneud i annog hunangyflogaeth mewn ardaloedd â lefelau isel ar hyn o bryd. Nododd yr Athro Henley fod data diweddaraf y cyfrifiad yn dangos bod y broblem yn barhaus. Nododd fod cyfleoedd yn tueddu i gael eu gyrru gan alw economaidd, ac nid yw ardaloedd o gyfoeth isel a ffyniant isel wedi bod yn sylfaen dda ar gyfer cyfleoedd hunangyflogaeth sy'n cael eu gyrru'n lleol. Nododd bod llawer o hunangyflogaeth yn yr ardaloedd hyn ymysg pobl sy'n teithio i'w gwaith, sydd wedyn yn mynd i ardaloedd mwy llewyrchus fel Caerdydd. Mae agweddau tuag at risg hefyd yn allweddol – yn arbennig i bobl iau, a menywod iau. Does dim atebion hawdd - mae angen i ni feddwl am gwestiynau darlun mawr ynghylch ffyniant yn gyffredinol, er mwyn creu cyfleoedd economaidd.

Dywedodd Michael Allen ei fod wedi mwynhau'r cyfarfod a theimlodd y bu’n adeiladol iawn. Mae'n cadeirio prosiect yng ngorllewin Cymru, a nododd bod sawl cyfle o'i fewn i bobl hunangyflogedig. Gofynnodd a yw Awdurdodau Lleol yn cefnogi cymdeithasau budd-daliadau cymunedol yn ddigonol, gan ei fod yn teimlo nad oedd y broses o wneud penderfyniadau yn ymarferol yn adlewyrchu polisi i gefnogi hyn. Roedd mynychwyr eraill hefyd yn adlewyrchu'r profiad hwn, a nododd fod cynyddu ymwybyddiaeth o gymdeithasau budd cymunedol yn bwysig.

Trafododd y grŵp effaith diffyg modelau rôl perthnasol wrth annog hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth. Soniodd Dan am ei ymchwil a ganfu nad oedd pobl o reidrwydd yn cysylltu hunangyflogaeth â'r gair entrepreneuriaeth, ac y gallai hyd yn oed eu hatal rhag rhoi cynnig arni. Nododd Andrew fod hyn wedi bod yn berthnasol yn y llenyddiaeth ers tro, a bod 2 fath o fodelau rôl; ffigurau ysbrydoledig, a phobl sy'n eich dysgu sut i ddod yn entrepreneur mewn ffordd ymarferol. Nododd Andrew raglen Syniadau Mawr Cymru fel enghraifft o arfer gorau y mae gweddill y byd wedi dod i Gymru i ddysgu ohono. Er mwyn annog mentrau cydweithredol a chymdeithasol yn y cyd-destun hwn, dywedodd bod angen i ni roi llwyfan i bobl yn y sector hwn o fewn addysg entrepreneuriaeth.

Trafododd Gemma Casey, rheolwr eco-system Cymru yn Natwest, y gwasanaethau cefnogi busnes y maent yn eu darparu. Soniodd am adolygiad Rose o entrepreneuriaeth benywaidd, sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol, a dywedodd y byddant yn rhoi sylw eleni i entrepreneuriaid benywaidd yng Nghymru. Amlygodd yr adolygiad fod menywod yn dweud bod ganddynt ddiffyg modelau rôl benywaidd, ac mae Natwest wedi cael sawl enghraifft o hyn, yn enwedig o ran gwerth partneriaeth. Maen nhw wedi lansio cyfres o bodlediadau o'r enw Inspiring Women Wales, sy'n rhoi llwyfan i entrepreneuriaid benywaidd lleol a pherthnasol o Gymru.

Yna, seiniodd Mark Hooper nodyn o rybudd am annog hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth pan wyddom fod y data yn dangos bod heriau ariannol sylweddol ar gyfer hunangyflogaeth yng Nghymru. Gall fod yn naratif niweidiol os ydym yn hyrwyddo hunangyflogaeth fel llwybr allan o dlodi ym mhob cyd-destun. Yna, trafododd Michael ei brofiadau o heriau hunangyflogaeth, a sut mae angen i ni gymryd agwedd newydd tuag at fethiant busnes a gweld hyn fel profiad cadarnhaol y gallwn ddysgu ohono, a sicrhau nad yw cymdeithas a'n systemau economaidd yn stigmateiddio methiant.

Yna caeodd Vikki y cyfarfod, gan ddiolch i'r siaradwyr gwadd a'r mynychwyr am eu cyfraniadau. Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei drefnu a'i hysbysebu’n fuan.